# Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Dirprwy Bennaeth

**Llawn Amser**
**a Pharhaol**

**Dyddiad Dechrau** Ionawr 2024 (neu'n gynt os oes modd)

**Grŵp Cyflog** Graddfa Arweinyddiaeth: L20-24




**Manylion Cyswllt:**

Ysgol y Gogarth
Ffordd Nant y Gamar
Craig-y-don
Llandudno
Conwy
LL30 1YE

Rhif ffôn: 0300 456 9521

# Croeso gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno ag Ysgol y Gogarth ar ein taith i wella'r ysgol. Credwn yn gryf bod y swydd bwysig hon yn gyfle arbennig i athro ysbrydoledig fod yn rhan o'n tîm arweinyddiaeth yn y cam nesaf o ddatblygiad yr ysgol. Rydym yn chwilio am arweinydd sy'n meddu ar y weledigaeth, yr uchelgais a'r ysgogiad i weithio â'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr wrth ddarparu cyfleoedd a chanlyniadau o'r radd flaenaf i'r disgyblion.

Mae gennym adeilad pwrpasol â'r holl adnoddau i fodloni anghenion dysgwyr yn yr unfed ganrif ar hugain, tîm addysgu a chefnogi medrus a chryf ei gymhelliant, tîm arwain strategol ymroddedig a chorff Llywodraethu rhagweithiol. Bydd ein Dirprwy Bennaeth newydd yn ymuno ag ysgol sy'n ennyn cryn gefnogaeth a pharch o'r gymuned leol ac sy'n cyfrannu at y cyfleoedd dysgu ehangach sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anawsterau ac anableddau dysgu yng Nghonwy.

Yn bwysicaf oll, rydym yn chwilio am Ddirprwy Bennaeth sy'n medru gweld y potensial ymhob un o'n disgyblion fel dysgwyr, a'u gosod yn ganolog i'r holl gynlluniau, penderfyniadau a datblygiadau newydd. Bydd yn medru dangos profiad o arwain ysgol gyfan a chynllunio'n strategol gan gyfrannu at arloesi yn y cwricwlwm a gwella canlyniadau a chyfleoedd i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn uchelgeisiol, yn flaengar ac yn ymroi i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol ar gyfer ein holl ddisgyblion. Dylai ein Dirprwy Bennaeth newydd fod yn ymarferydd a model rôl ardderchog sy'n meddu ar yr egni, y sgiliau a'r wybodaeth i arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Cwricwlwm Cymru wrth gyflwyno'r cam nesaf a deall y cyfleoedd unigryw y bydd hyn yn ei greu i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylent hefyd fod yn barod i ddatblygu'r partneriaethau a threfniadau cydweithio sydd eisoes wedi'u sefydlu ag ysgolion eraill, asiantaethau a budd-ddeiliaid, a meithrin cysylltiadau cadarnhaol yn nhîm yr ysgol er budd cydweithio.

Gobeithiwn eich bod wedi'ch ysbrydoli i ymuno a thîm llwyddiannus ac ymroddgar a chriw anhygoel o blant a phobl ifanc ar eu taith ddysgu, a sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i gyflawni canlyniadau a llwyddo wrth ddysgu.

Yn gywir

Trish Holland,

Cadeirydd y Llywodraethwyr

# Ynglŷn â’r Ysgol

**Ysgol y Gogarth: ‘Lle Daw’r Plant yn Gyntaf.’**

Mae Ysgol y Gogarth yn ysgol ddydd a phreswyl sy’n darparu addysg i tua 276 o ddisgyblion rhwng 3 a 19 mlwydd oed. Saif yr ysgol ger glannau bae hyfryd Llandudno a llai na phedair milltir o’r A55. Mae safle’r ysgol yn ddymunol ac mae Canolfan Datblygu Plant wedi’i sefydlu ar y campws. Hon yw’r unig ysgol arbennig yn yr awdurdod lleol.

Mae gan y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol naill ai Ddatganiad neu Gynllun Datblygu Unigol sy’n nodi sbectrwm eang o anghenion dysgu ychwanegol. Mae ein cyfleusterau’n adlewyrchu oedrannau’r disgyblion sy’n mynychu’r ysgol ac amrywiaeth eu hanghenion. Mae’r ysgol yn cynnig nifer o gyfleusterau arbenigol, gan gynnwys pwll hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd rhyngweithiol, canolfan alwedigaethol, neuadd chwaraeon a mannau chwarae pwrpasol yn yr awyr agored.

Ynghyd â’r ddarpariaeth yn yr ysgol, mae canolfan Llys Gogarth yn darparu cyfleusterau preswyl pwrpasol. Mae’n cynnig pecyn integredig o addysg breswyl a gofal datblygiadol i blant a phobl ifanc rhwng 7 a 19 mlwydd oed. Darperir lleoliadau cyfnodol am dymor neu hanner tymor ar y tro er mwyn hybu annibyniaeth disgyblion, eu sgiliau cymdeithasol a’u profiadau o gael eu cynnwys mewn cymdeithas. Mae Llys Gogarth hefyd yn darparu gwasanaeth seibiant i gynorthwyo teuluoedd i fedru cynnal eu hunain, drwy ddyrannu nosweithiau gan dîm anableddau’r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae’n amser cyffrous i ymuno â’r ysgol gan y rhagwelir y bydd llawer o ddatblygiadau yn yr ysgol a gydol y Cyngor yn ymwneud â chynhwysiad yn ysgolion Conwy. Rydym hefyd yn datblygu ein darpariaeth yn yr ardal leol fel Ysgol Gymunedol ac yn bwriadu gwneud mwy i wella ein dull o feithrin cyswllt â theuluoedd a’r gymuned.

Rydym yn hollol gynhwysol o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae gennym dîm amlddisgyblaethol cadarn ac ymroddgar sy’n sicrhau safonau cyflawniad uchel mewn awyrgylch diogel a gofalgar. Caiff disgyblion eu cynnwys ym mhenderfyniadau’r ysgol drwy nifer o gynghorau ysgol a thrwy seilio ein harferion hunanarfarnu a myfyrio ar yr unigolion a safbwyntiau’r dysgwyr. Yn 2017 cyflawnodd yr ysgol ddyfarniad ‘rhagorol’ gan Estyn.

Mae Ysgol y Gogarth yn gymuned ddysgu fywiog a chynhwysol lle caiff y disgyblion a’r staff eu herio, eu difyrru a’u cefnogi i dyfu a chyfrannu. Ymfalchïwn yn ein dull llwyddiannus a dyfeisgar o ymdrin â dysgu, a cheisiwn wneud cynnydd a datblygu gyda’n gilydd.

# Hysbyseb Swydd a Swydd-ddisgrifiad

## DIRPRWY BENNAETH

**Yn eisiau erbyn Ionawr 2024 Graddfa Gyflog: L20-24**

Mae'r Llywodraethwyr am benodi arweinydd arbennig, dyfeisgar ac ymroddgar i gefnogi ein Pennaeth i fynd â'r ysgol ymlaen i'r cam nesaf yn ei datblygiad.

Rydym yn hollol gynhwysol o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae gennym dîm amlddisgyblaethol cadarn ac ymroddgar sy'n sicrhau safonau cyflawniad uchel mewn awyrgylch diogel a gofalgar.

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn:

- addysgwr sy'n ymroi i ddatblygu'r potensial ymhob plentyn
- unigolyn â hanes o lwyddo fel uwch-arweinydd mewn ysgol
- rhywun sy'n meddwl yn strategol ac yn greadigol gan ysbrydoli eraill a bod yn fodel rôl proffesiynol
- rhywun sy'n medru ymgorffori gwerthoedd ac ethos Ysgol y Gogarth.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn **ddymunol**.

I ymgeisio, ewch i www.conwy.gov.uk/swyddi a llenwi'r ffurflen gais.

**Dyddiad cau:** 12.00am nos Iau 22 Mehefin 2023

**Rhagor o wybodaeth**: I gael sgwrs anffurfiol am y swydd â'r Pennaeth cyn ichi ymgeisio, neu os oes arnoch angen ychwaneg o fanylion, mae croeso ichi gysylltu ag Amanda Hughes, Rheolwr Busnes yr Ysgol ar y rhif isod i drefnu amser cyfleus.

**Ymweliad â'r ysgol** (drwy apwyntiad; cysylltwch ag Amanda Hughes i drefnu):

Dydd Llun 19 Mehefin a dydd Mawrth 20 Mehefin 2023

**Llunio rhestr fer:** Dydd Llun 26 Mehefin 2023

**Dyddiadau'r Cyfweliadau:** Dydd Mercher 5 Gorffennaf a dydd Iau 6 Gorffennaf 2023.

**Ni dderbynnir CV heb ffurflen gais.**

Wrth fynd ati i hyrwyddo Cyfle Cyfartal, mae Conwy yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned. Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n diwallu gofynion hanfodol y swydd yn cael cyfweliad.

Ysgol y Gogarth, Ffordd Nant y Gamar, Llandudno, Conwy LL30 1YE

Rhif ffôn: 0300 456 9521

Gwefan**: www.ysgolygogarth.co.uk**

**Ysgol y Gogarth Swydd-ddisgrifiad** – Dirprwy Bennaeth

## Grŵp Cyflog – Arweinyddiaeth L20-24

Yn ogystal â bodloni'r amodau cyflogaeth a chyflawni dyletswyddau proffesiynol Dirprwy Bennaeth fel y'u pennir yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol 2016 a'r disgwyliad i gyflawni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arwain, mae gofynion eraill y swydd fel a ganlyn:

### Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Penodol

- Creu awyrgylch addysgol o'r radd flaenaf i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ei ddatblygu a'i gynnal.
- Sicrhau datblygiad parhaus yr ysgol a chyfrannu'n arwyddocaol at drefniadaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth o'r radd flaenaf.
- Chwarae rhan weithgar a chyflawn wrth gefnogi a hyrwyddo pob agwedd ar fywyd yn yr ysgol.
- Mynd i gyfarfodydd y Llywodraethwyr fel y bo'n briodol a chynrychioli'r ysgol mewn cyfarfodydd amlasiantaethol, gan adlewyrchu ei gwerthoedd.
- Bod yn rhagweithiol wrth ymchwilio i ddatblygiadau newydd ym myd addysg a'r sector Anghenion Dysgu Ychwanegol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a'u hadolygu.
- Dirprwyo'n llawn ar ran y Pennaeth pan fydd yn absennol.
- Gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill a phartneriaid yng Nghonwy a thu hwnt, a meithrin cysylltiadau cryf i ddatblygu mwy o bartneriaethau er budd yr ysgol.
- Arwain datblygiad cwricwlwm yr ysgol, monitro ac arfarnu a chyfranogi o brosiectau cenedlaethol i ddatblygu addysgeg ac ymarfer.

### Cyfrifoldebau Trefniadaeth, Arwain a Rheoli

Cyfrifoldebau Penodol

- Cynnal gweledigaeth ac uchelgais yr ysgol a sicrhau y caiff polisïau eu gweithredu, eu monitro, eu datblygu a'u hadolygu er mwyn cyflawni nodau a blaenoriaethau'r ysgol.
- Gweithio'n agos â'r Pennaeth, y Tîm Arwain Strategol a'r Corff Llywodraethu wrth gynllunio datblygiad yr ysgol yn strategol a hunanarfarnu.
- Bod yn fodel rôl ardderchog i'r holl staff a myfyrwyr a bod yn bresenoldeb cadarnhaol a gweledol yn gyson o amgylch yr ysgol.
- Gweithio'n agos â'r Pennaeth wrth sicrhau cynllunio ariannol effeithiol, defnyddio adnoddau'n effeithlon a phennu canlyniadau mesuradwy, gan gynnwys dyrannu arian grant ar gyfer prosiectau penodol a'u monitro.
- Cadeirio cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr yn yr ysgol, eu hwyluso a chymryd cofnodion fel y bo'n briodol, a sicrhau y darperir adroddiadau graenus yn eu cylch i rieni a'r awdurdod lleol.
- Sicrhau ansawdd adroddiadau blynyddol a tymhorol ac adroddiadau perthnasol eraill gan athrawon ar gyfer rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Sicrhau safon uchel yn gyson wrth adrodd ynghylch cynnydd a'i asesu.
- Datblygu a chynnal trefn gyfathrebu effeithiol rhwng y dysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr, y Llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.
- Hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr holl staff, yn unol â'r blaenoriaethau presennol yng Nghynllun Gwella'r Ysgol a thargedau rheoli perfformiad, a chynnal Hyfforddiant mewn Swydd wedi'i dargedu at grwpiau ac unigolion penodol.
- Arwain a hwyluso datblygiad proffesiynol fel y bo'n briodol.
- Bod yn rheolwr atebol ar dimau / aelodau penodedig o staff.

- Cefnogi Arweinwyr Adrannau a dirprwyo pan fyddant yn absennol a bod yn gyswllt allweddol i gydweithwyr amlasiantaethol, gan gynnwys nyrsys, ffisiotherapyddion, therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddysgwyr a'u teuluoedd.
- Sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i bob aelod o gymuned yr ysgol.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu'r ysgol yn Ysgol Gymunedol a hyrwyddo cyfranogiad teuluoedd a'r gymuned ochr yn ochr â'r Pennaeth, y Tîm Arwain Strategol ac unigolion cyfrifol eraill.
- Arwain y drefn amddiffyn plant a diogelu dysgwyr ochr yn ochr â'r Pennaeth a'r Pennaeth Gofal.
- Cefnogi'r Tîm Arwain Strategol wrth ddatblygu rhaglen gynhwysiad gydag ysgolion sy'n bartneriaid.

**Cyfrifoldebau a Rennir wrth Reoli Addysgu a Dysgu**

Cyfrifoldebau Penodol

- Disgwyl pethau gwych gan staff a disgyblion a bod yn atebol am godi safonau addysgu a dysgu.
- Sicrhau y caiff cwricwlwm yr ysgol ei gynllunio a'i arfarnu'n effeithiol.
- Hyrwyddo dysgu a datblygu proffesiynol drwy feithrin dealltwriaeth o addysgeg sy'n briodol i'n disgyblion, datblygu'r wybodaeth honno a'i rhannu.
- Rhannu'r cyfrifoldeb am asesu cynnydd y dysgwyr, ei gofnodi ac adrodd yn ei gylch, yn ansoddol a meintiol, gan sicrhau cynnydd a dilyniant ac anfon y wybodaeth berthnasol am gyrhaeddiad y dysgwyr i'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau fod gan yr holl ddysgwyr fynediad cyfartal i'r cwricwlwm cyfan, gan gynnal awyrgylch dysgu difyr, perthnasol ac effeithiol yng nghyd-destun Cwricwlwm Cymru.
- Rhannu'r cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd a chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau safonau uchel.
- Cynnig cymorth bugeiliol cyson i ddysgwyr a darparu cyngor arbenigol ynglŷn â rheoli ymddygiad heriol.
- Hyrwyddo cydweithio effeithiol ledled yr ysgol er mwyn sicrhau cynllunio cydlynol, cyfleoedd addysgol cyson i ddysgwyr a safonau uchel ar gyfer addysgu a dysgu.
- Sicrhau yr addasir y modd y caiff y cwricwlwm ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn bodloni anghenion, dyheadau a chanlyniadau'r dysgwyr unigol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau addysgu sy'n briodol i hyrwyddo ymarfer rhagorol yn y dosbarth a hybu dyfeisgarwch wrth gyflwyno'r cwricwlwm.

**Cyfrifoldebau a rennir wrth Reoli Pobl**

Cyfrifoldebau Penodol

- Ysbrydoli cydweithwyr a disgyblion, eu hysgogi a dylanwadu arnynt er mwyn sicrhau addysg o'r radd flaenaf a gwella'r canlyniadau i ddisgyblion.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith ardderchog â'r holl staff ac yn eu plith, gan gynnwys cydweithwyr amlasiantaethol.
- Cynnal a hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr ysgol drwy gyfathrebu'n effeithiol, modelu rôl, mentora, trafod a hyfforddi.
- Hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr ysgol a theuluoedd y dysgwyr, asiantaethau allanol a'r gymuned ehangach.
- Ar y cyd ag arweinwyr eraill yr ysgol, goruchwylio amserlenni a rotas ar gyfer gwasanaethau a bod ar ddyletswydd ynghyd â rhestri gwybodaeth wythnosol fel bod yr ysgol yn gweithredu'n esmwyth.
- Monitro ac adolygu presenoldeb staff gyda'r Pennaeth a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a gyfyd yn effeithiol.

**Nodiadau cyffredinol**

Adolygir swydd-ddisgrifiadau bob blwyddyn.
Y cyfrifoldebau a restrir uchod yw hanfodion sylfaenol y swydd; bydd cyfle bob amser i ddeiliad y swydd gynnig ffyrdd o ymestyn y cyfrifoldebau hyn, a gellid cynnwys ychwaneg o gyfrifoldebau fel sy'n ofynnol er mwyn bodloni anghenion yr ysgol.

# Manylion am yr Unigolyn

# Ysgol y Gogarth: Dirprwy Bennaeth

| Cymwysterau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Statws Athro Cymwysedig | ✓ | |
| Gradd dosbarth cyntaf neu gyfwerth | ✓ | |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol pellach wrth baratoi ar gyfer swydd uwch-arweinydd | ✓ | |
| Cymhwyster (neu ddysgu proffesiynol) ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol | ✓ | |
| Tystiolaeth o gymwysterau addysgol eraill sy’n berthnasol | | ✓ |

| Profiad | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Hanes o arwain yn llwyddiannus | ✓ | |
| Profiad diweddar o gynllunio ac arwain gwelliannau ar gyfer ysgol gyfan a gafodd effaith amlwg ar gynnydd a chanlyniadau’r dysgwyr. | ✓ | |
| Gwybodaeth a phrofiad o weithio ag amrywiaeth o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn nifer o gyfnodau allweddol. | ✓ | |
| Profiad o lwyddo wrth arwain i gyflawni blaenoriaethau’r ysgol gyfan i wella profiadau a chanlyniadau addysgol i bawb. | ✓ | |
| Profiad o hunanarfarnu ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer datblygu ysgol. | ✓ | |
| Profiad o arwain mewn ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol | ✓ | |
| Profiad o weithio gyda llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned a datblygu partneriaethau â hwy. | ✓ | |
| Profiad o gydweithio’n llwyddiannus a datblygu ymarfer arloesol. | ✓ | |
| Profiad o weithio mewn ysgol syth-drwodd (traws-gyfnod) | | ✓ |
| Profiad mewn mwy nag un ysgol | | ✓ |
| Profiad o ddatblygu cyfleoedd a dysg cynhwysol. | | ✓ |
| Profiad o weithio’n unol â model hyfforddi. | | ✓ |

| Gwybodaeth a Dealltwriaeth | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylunio cwricwlwm yn effeithiol a strategaethau addysg a dysgu. | ✓ | |
| Ymrwymiad yr ysgol i ddiogelu myfyrwyr dan eich gofal a hyrwyddo eu lles | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ddulliau addysgeg a dulliau mwy cyffredinol o fodloni anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddadansoddi data a medru defnyddio data wrth bennu targedau ar gyfer gwella | ✓ | |
| Sgiliau TGCh ardderchog ar gyfer amryw dasgau gweinyddol addysgol, ac ar gyfer addysgu a dysgu | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o strategaethau ar gyfer cynnal lles yr ysgol gyfan | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o weithdrefnau rheoli perfformiad | ✓ | |
| Dealltwriaeth o'r ffordd y mae myfyrwyr yn dysgu ac yn rhoi eu dysg ar waith yn effeithiol | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer cynhwysol | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfoes o'r gyfundrefn addysg a'r pynciau llosg ym myd addysg yng Nghymru ar hyn o bryd | ✓ | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith Estyn | | ✓ |

| Sgiliau/Rhinweddau Arweinyddol a Phersonol | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Arweinydd ardderchog sy'n medru dylanwadu ar eraill | ✓ | |
| Yn ddymunol ac agos-atoch a hefyd yn ennyn parch a hygrededd yn bersonol a phroffesiynol | | |
| Gallu ac ymrwymiad i ddatblygu a chynnal ethos yr ysgol mewn partneriaeth â'r Pennaeth | ✓ | |
| Medru cynrychioli'r ysgol yn gadarnhaol a chydweithio ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys rhieni, darpar rieni a dysgwyr, llywodraethwyr, swyddogion yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol, aelodau o'r cyhoedd a'r cyfryngau | ✓ | |
| Gallu ysbrydoli eraill a datblygu eu sgiliau a'u gallu i arwain | ✓ | |
| Gallu arwain a gweithio mewn tîm er mwyn ysgogi ac ysbrydoli cydweithwyr i gyflawni gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwella'r ysgol | ✓ | |
| Gallu datblygu unigolion a thimau a rhoi grym a chefnogaeth iddynt, a chydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth | ✓ | |
| Gallu herio perfformiad gwael lle bo'r angen a chynnig cefnogaeth | ✓ | |
| Disgwyl pethau gwych gan ddisgyblion a staff fel ei gilydd, a chydnabod eu potensial | ✓ | |
| Gallu dadansoddi materion cymhleth a meddwl yn greadigol a strategol | ✓ | |
| Gallu meithrin cyswllt â budd-ddeiliaid mewn amryw sefyllfaoedd a medru defnyddio empathi wrth ddod i benderfyniadau. | ✓ | |
| Canolbwyntio ar ddatrysiadau | ✓ | |
| Bod â synnwyr digrifwch! | ✓ | |

| Sgiliau Cyfathrebu | Hanfodol | Dymunol |
| --- | --- | --- |
| Rhinwedd bersonol: gallu cyfathrebu'n glir a chymryd safbwyntiau eraill i ystyriaeth, fel y bo'n briodol. | ✓ | |
| Rhinwedd broffesiynol: gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag amryw gynulleidfaoedd. | ✓ | |

| Sgiliau Hunanreoli | Hanfodol | Dymunol |
| --- | --- | --- |
| Gallu cynllunio a threfnu eich gwaith eich hun yn effeithiol. Bydd hynny'n cynnwys gallu:<br>• Blaenoriaethu a rheoli amser<br>• Gweithio dan bwysau a bodloni terfynau amser<br>• Ysgogi eich hun a gosod nodau personol<br>• Gosod esiampl i'r Tîm Arwain Strategol. | ✓ | |

| Gwybodaeth a Sgiliau Arbennig | Hanfodol | Dymunol |
| --- | --- | --- |
| Gwybodaeth fanwl o'r ddeddfwriaeth a phynciau llosg ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol. | ✓ | |
| Gallu siarad a chyfathrebu yn Gymraeg. | | ✓ |

*I gyflawni'r holl ddyletswyddau hyn yn unol â'r Safonau Cenedlaethol a bennir ar gyfer pawb â statws Athro Cymwys a'r ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol gyfredol. Mae'n ymdrin â chyfrifoldebau pob athro dosbarth.*

# Y Drefn Ymgeisio

Os dymunwch ymgeisio am y swydd hon ar ôl darllen y wybodaeth, llenwch y ffurflen gais a rhowch enw a manylion cyswllt dau ganolwr.

Wrth lenwi adran 12 o'r ffurflen (Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais), ar daflen ar wahân os dymunwch, dylech gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

**Syniad o'r cryfderau a'r arbenigedd y gallech eu cynnig i'r ysgol.**

Dylai pob pwynt ymdrin yn benodol â'r hyn a nodir yn y manylion am yr unigolyn a'r datganiadau eraill a wneir yn y pecyn gwybodaeth hwn.

Gofynnir yn garedig i ymgeiswyr **beidio** â chyflwyno CV yn lle ffurflen gais.

- Ar ôl llenwi'r ffurflen gais ar-lein ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy cyn y terfyn amser (**hanner nos 22 Mehefin 2023**) www.conwy.gov.uk/swyddi
- Bydd modd i ddarpar ymgeiswyr ymweld â'r ysgol yn anffurfiol, cyn llunio'r rhestr fer, ar y dyddiadau a ganlyn: Dydd Llun 19 Mehefin a dydd Mawrth 20 Mehefin (rhaid gwneud apwyntiad)
- I gael sgwrs anffurfiol am y swydd â'r Pennaeth cyn ichi ymgeisio, neu os oes arnoch angen ychwaneg o fanylion, mae croeso ichi gysylltu ag Amanda Hughes, Rheolwr Busnes yr Ysgol, i drefnu amser cyfleus.
- Cynhelir y cyfweliadau **ddydd Mercher 5 Gorffennaf** a **dydd Iau 6 Gorffennaf 2023**.

Os nad ydych wedi clywed gennym ni ymhen pythefnos wedi'r dyddiad hwn, yn anffodus bydd yn rhaid i chi dybio na fu eich cais yn llwyddiannus y tro hwn, ac os felly hoffwn ddiolch ichi am eich amser a'ch diddordeb yn yr ysgol.

